O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2013 Rhif 674 (Cy. 80)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 23 (Llanddulas) i Gyffordd 19 (Llansanffraid Glan Conwy), Bwrdeistref Sirol Conwy) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2013

Gwnaed *28 Chwefror 2013*

Yn dod i rym *6 Mawrth 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith sy'n cael ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall, yn gwneud y Gorchymyn hwn**(2)**.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Mawrth 2013 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 23 (Llanddulas) i Gyffordd 19 (Llansanffraid Glan Conwy), Bwrdeistref Sirol Conwy) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2013.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 6 Mawrth 2013 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro yn cael eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darnau o'r gefnffordd” *(“the lengths of the trunk road”)* yw'r darnau o Gefnffordd yr A55 rhwng Cyffordd 23 (Llanddulas) a Chyffordd 19 (Llansanffraid Glan Conwy) ym Mwrdeistref Sirol Conwy a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau a Chyfyngiad

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 13, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 13, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic o'r fath gael ei reidio ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 13, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 13, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

7. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 13, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd 3.25 metr neu ragor o led, fynd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

8. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 13, bydd y llain galed sydd gyfagos i brif gerbytffordd tua'r gorllewin y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 ar gael i'w defnyddio fel lôn i draffig.

Atal Dros Dro

9. Mae darpariaethau Rheoliad 13, paragraffau (1) a (2) o Reoliadau Ffyrdd Arbennig (Llanddulas i Fae Colwyn) 1984**(3)** i'r graddau y maent yn gymwys i'r darn hwnnw o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro yn ystod yr adegau hynny y bydd y cyfyngiad a bennir yn erthygl 6 yn weithredol.

10. Mae darpariaethau Rheoliad 13(1) a (2) o Reoliadau Ffyrdd Arbennig (Bae Colwyn i Lanconwy) 1985**(4)** wedi eu hatal dros dro o ran y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn yn ystod yr adegau hynny y bydd y cyfyngiad a bennir yn erthygl 6 ar waith.